



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

SESIYNAU TYNNU LLUNIAU YN PCYDDDS

Pob dim mae angen i ti ei wybod
cyn dy sesiwn tynnu lluniau →



CROESO

Diolch am gymryd rhan mewn sesiwn tynnu lluniau i PCYDDS

Mae'r canllaw hwn yn esbonio:

- Ble gellir defnyddio'r lluniau
- Sut i baratoi
- Beth i'w ddisgwyl



Nid oes angen profiad modelu arnat ti, mae angen dy fod di wedi'i baratoi, dy fod yn gyfforddus ac yn barod i fod yn ti dy hun.



DEFNYDD O DDELWEDDAU



Gellir defnyddio lluniau ar draws (ond ddim yn gyfyngedig i):

- Gwefannau a thudalennau glanio'r Brifysgol
- Y Prosbectws a chyhoeddiadau printiedig
- Y cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd digidol
- Marchnata a deunyddiau hyrwyddo

Defnyddir delweddau dros sawl blwyddyn. Os oes gennyt unrhyw bryderon ynglŷn â sut mae dy ddelweddau'n cael eu defnyddio, anfona e-bost at:

➔ photoshoots@uwtsd.ac.uk

EIN HARDDULL WELEDOL

Rydyn ni'n anelu at greu delweddau sy'n teimlo:

- Yn ddilys ac yn naturiol
- Yn gyfeillgar ac yn groesawgar
- Yn hyderus ac yn ysbrydoledig
- Yn gynhwysol ac yn gynrychiadol

Rydyn ni'n osgoi:

- Lluniau ffurfiol iawn
- Unrhyw beth sy'n teimlo'n anghyforddus neu'n annaturiol
- Mynegiadau wyneb sydd wedi'i orfodi



Meddylia am **fyfyrwyr go iawn, eiliadau go iawn**

BETH I'W WISGO

Canllawiau ar ran dillad

Dewisiadau gorau

- Dillad sy'n gyfforddus
- Dillad plaen neu gyda'r lleiaf posibl o batrymau
- Lliwiau niwtral neu dawel (e.e. *glas, llwyd, llwydfelyn, gwyn, du, tonau daearol*)

Awgrym:

Mae gwahanol haenau (*siacedi, cardiganau, crysau sy'n mynd dros grysau t*) yn edrych yn dda mewn lluniau ac yn rhoi opsiynau i ti yn dibynnu ar y tywydd.



Dylet ti osgoi

- Logos mawr neu ddillad wedi'i frandio
- Lliwiau llachar neu neon
- Patrymau prysur neu streipiau amlwg
- Dillad gyda sloganau neu destun



PARATOI AR GYFER Y **SESIWN** TYNNU LLUNIAU

*Dere i'r sesiwn yn edrych fel
y fersiwn orau o dy hunan arferol*

- Steilio dy **wallt** fel y byddi di'n ei wisgo fel arfer
- **Gwallt ar yr wyneb:**
Yn daclus ac yn fwriadol
- **Colur** (os wyt ti'n ei wisgo):
yn naturiol ac yn gyfforddus
- **Ewinedd:**
Yn lân ac yn gyflwynadwy



AR Y **DIWRNOD**

Beth i'w ddisgwyl

- Bydd ffotograffydd cyfeillgar a/neu swyddog marchnata yn dy dywys
- Byddi di'n derbyn cyfarwyddiadau ar sut i osod dy hun – does dim angen profiad
- Mae egwyliau ar gael os wyt ti angen eu cymryd
- Gallet ti ofyn cwestiynau ar unrhyw adeg

Mae'r amgylchedd yn ymlaciedig ac yn gefnogol. Os yw unrhyw beth yn teimlo'n anghyfforddus, rho wybod i ni.



IAITH Y CORFF AC EDRYCHIADAU



Beth sy'n gweithio'n dda ar gamera

- Gwenau naturiol neu fynegiadau ymlaciedig
- Symudiad ysgafn (cerdded, siarad, rhyngweithio)
- Rhyngweithio go iawn ag eraill
- Ystum, agored ymlaciedig



Nid oes rhaid i chi
wenu drwy'r amser
– mae mynegiadau
tawel neu feddylgar
yr un mor werthfawr.

CYNHWYSEDD A PHARCH

Ein hymrwymiad

- Does dim disgwyl i ti byth newid pwy wyt ti
- Bydd anghenion hygyrchedd yn cael eu darparu
- Mae parch, cydsyniad a chysur yn dod yn gyntaf

Os oes gennyt anghenion neu bryderon penodol, cysyllta â:

→ photoshoots@uwtsd.ac.uk



CYDSYNIAD A PHREIFATRWYDD

Ffurflenni cydsynio

Cyn y sesiwn, gofynnir i ti gwblhau ffurflen gydsynio sy'n cwmpasu:

- Sut y gellir defnyddio delweddau
- Storio a faint o amser bydd y delweddau'n cael eu cadw
- Eich hawliau a'ch opsiynau tynnu yn ôl

Darllena yn ofalus a gofyn cwestiynau os yw unrhyw beth yn aneglur. Mae gennyt y cyfle i newid dy feddwl am y defnydd o dy ddelweddau ar unrhyw adeg. Unwaith y bydd cydsyniad yn cael ei dynnu'n ôl, byddwn ni'n rhoi'r gorau i ddefnyddio dy ddelweddau mewn deunyddiau yn y dyfodol cyn gynted â phosibl. Noda, y gall rhywfaint o gynnwys, fel deunyddiau printiedig sydd eisoes wedi'u cynhyrchu aros mewn cylchrediad am gyfnod cyfyngedig.



Drwy gymryd rhan, rwyf ti'n helpu myfyrwyr y dyfodol i weld sut beth yw bywyd yn PCYDDS go iawn.

Os hoffet ti gymryd rhan mewn cyfleoedd yn y dyfodol neu waith llysgenhadon myfyrwyr â thâl, cysyllta â:

→ studentambassadors@uwtsd.ac.uk

Cwestiynau
neu bryderon?

photoshoots@uwtsd.ac.uk



DIOLCH



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

pcyddds.ac.uk